# Versus Arthritis

## Proffil Rôl Gwirfoddolwr

---

## Gwirfoddolwr Gwybodaeth a Chymorth Siarad

| | |
|---|---|
| **Ymrwymiad Amser** | Hyblyg, mae pob sesiwn yn poara am 1 awr i 2.5 awr yn ogystal ag amser ar gyfer hyfforddiant ac ymarfer myfyriol |
| **Cyswllt Staff:** | Swyddog Rhanbarthol |

**Sut y byddwch chi'n gwneud gwahaniaeth**
Yn Versus Arthritis, credwn y dylai pawb gael y cymorth a'r wybodaeth y mae ei hangen arnynt i fyw yn dda. Mae ein sesiynau gwybodaeth a arweinir gan gymheiriaid yn grymuso pobl, gan gynnwys pobl ag arthritis, poen cronig a chyflyrau cyhyrysgerbydol drwy roi'r offer iddynt gymryd rheolaeth yn ôl a rheoli eu cyflwr yn hyderus. Fel Gwirfoddolwr Gwybodaeth a Chymorth Siarad, byddwch chi'n chwarae rôl hanfodol wrth gyflwyno sesiynau cefnogol sy'n ennyn diddordeb ac sy'n newid bywydau.

**Beth y byddwch chi'n ei wneud**

- Gweithio fel rhan o dîm i baratoi a chyflwyno sesiynau gwybodaeth
- Cynorthwyo â chynllunio sesiynau, cyflwyno sesiynau a thasgau dilynol
- Rhannu cyhoeddiadau a deunyddiau priodol gyda phobl
- Helpu cyfranogwyr i ddysgu technegau hunan-reolaeth ymarferol
- Cyflwyno i gynulleidfaoedd amrywiol mewn ffordd gyfeillgar, sy'n llawn gwybodaeth ac sy'n ennyn diddordeb
- Darparu amgylchedd croesawgar, cynhwysol a chefnogol
- Ateb ymholiadau cyffredinol a chyfeirio cwestiynau penodol i'r aelod staff perthnasol, yr adnoddau perthnasol neu'r llinell gymorth berthnasol
- Opsiwn i fynychu digwyddiadau rhannu gwybodaeth megis grwpiau rhwydwaith cynnwys cymunedau a diwrnodau gweithredu cymunedol
- Sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn cael eu dilyn

**Ble y byddwch chi'n cynnal y sesiynau**

- Sesiwn wyneb yn wyneb mewn lleoliadau cymunedol e.e. neuaddau cymunedol, llyfrgelloedd, ysbytai
- Sesiynau ar-lein gan ddefnyddio TEAMS neu Zoom.

**Y math o berson rydym yn chwilio amdano**

Nid oes yn rhaid i chi fod yn arbenigwr ond dylech chi fod yn angerddol, yn ddibynadwy ac yn barod i ddysgu!

- Profiad personol o arthritis neu gyflwr hirdymor arall
- Gofalgar, sensitif ac empathig tuag at bobl o bob cefndir
- Sgiliau cyfathrebu da
- Gallu roi adborth adeiladol
- Sgiliau TG da a mynediad rhyngrwyd dibynadwy
- Dibynadwy ac ymrwymedig
- Yn fodlon cwblhau hyfforddiant a gweithio fel rhan o dîm
- 18 oed neu hŷn

**Beth y byddwch chi'n ei gael**

- Hyfforddiant ac anwytho i'ch paratoi ar gyfer eich rôl
- Mynediad i hyfforddiant parhaus, adnoddau a chymorth
- Cyfleodd i gysylltu a rhwydweithio gyda gwirfoddolwyr eraill
- Datblygu a gwella eich sgiliau
- Ad-dalu treuliau rhesymol
- Cyfle i wneud gwahaniaeth i bobl ag arthritis

**Gwybodaeth Bwysig**

Mae Versus Arthritis wedi ymrwymo i gadw plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn ddiogel rhag niwed. Fel rhan o'n proses recriwtio, rydym yn dilyn ymarferion recriwtio mwy diogel ac yn cynnal y gwiriadau perthnasol i sicrhau bod ymgeiswyr yn addas i weithio gyda'r grwpiau hyn. Hefyd, bydd angen cwblhau hyfforddiant diogelu ar ddechrau eich cyfnod gwirfoddoli.

Ar gyfer y rôl hon, bydd ein gweithdrefnau recriwtio mwy diogel yn cynnwys:

- Sgwrs anffurfiol i drafod y rôl, dod i'ch adnabod chi a deall eich cymhelliant am wirfoddoli

- Dau eirda
- Ffotograff adnabod

**Barod i ymuno â ni?**

Byddem wrth ein boddau'n clywed gennych chi!

Gadewch i ni **wneud gwahaniaeth gyda'n gilydd**

VOLUNTEERS VERSUS ARTHRITIS

Diwedd y ddogfen.